ADRODDIAD BLYNYDDOL

CYNGOR CYMUNED BUAN 2024/2025

Pleser yw cyflwyno adroddiad blynyddol Cyngor Cymuned Buan sy'n cofnodi'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ariannol 2024 / 2025. Bwriad yr adroddiad yw rhoi crynodeb o waith y Cyngor yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am ddarparu amrywiaeth o wahanol wasanaethau o fewn yr ardal.

Rhai o gyfrifodebau'r Cyngor yw:-

- Gosod y praesept a ddosberthir i'r Cyngor bob blwyddyn.
- Trafod ceisiadau cynllunio o fewn y gymuned a chyflwyno'r penderfyniadau i Adran Gynllunio – Cyngor Gwynedd.
- Hysbysu Adran Briffyrdd - Cyngor Gwynedd am gyflwr ffyrdd a.y.y.b.
- Cynnal a Chadw - Mynwent Llanfihangel, Cae pentref Rhydyclafdy a Mynwent Boduan, - gwahoddir prisiau / tendr gan gontractwyr.
- Cyfrannu at geisiadau am arian oddi wrth fudiadau / elusennau a.y.y.b.

Gwybodaeth am y Cyngor

Cymuned fechan ar Benrhyn Llŷn yw Buan yn cynnwys pentref Rhydyclafdy ac ardaloedd Boduan a Cheidio.

Mae 3 ward yn y gymuned a 10 cynghorydd wedi eu hethol fel a ganlyn:-

- **Ward Bachellaeth**

Cynghorwyr Hughie Williams, Rhys Jones, Catherine Hughes, Einir Lewis a Tesni Wyn Jones.

- **Ward Boduan**

Cynghorwyr Gareth Roberts, Philip Roberts a Dafydd Ll. Williams.

- **Ward Ceidio**

Cynghorwyr Wynne Davies a Nia Jones.

Cynghorydd Sirol – Mrs. Anwen Davies

Etholir Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai gyda'r Cynhorydd Hughie Williams wedi ei ail ethol yn Gadeirydd am y flwyddyn 2024 / 2025 a'r Cynghorydd Rhys Jones eto wedi ei ail ethol yn Is-gadeirydd.

Staff

Un aelod o staff sydd gan y Cyngor, sef Nia Jane Owen-Midwood, sy'n Glerc a Swyddog Ariannol. Mae'n gweithio'n rhan amser. Gellir cysylltu â hi drwy e-bost clercbuan@outlook.com neu drwy lythyr i Mayfield, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd. LL53 6BW, neu ffôn ar 01758 720621.

Penodwyd Nia Jane Owen-Midwood i'r Swydd Clerc Medi 2023.

Cyfarfodydd

Cynhelir y cyfarfodydd ar yr ail nos Iau o bob mis yng Nghlwb Chwaraeon Pwllheli, yn Efailnewydd 7.30 y.h. Y Gymraeg yw iaith weinyddol y Cyngor.

Cafwyd 11 cyfarfod yn ystod y flwyddyn 2024/2025, 2 ohonynt wedi eu cynnal yn Tu Hwnt i'r Afon, 2 yng Nghapel Peniel, Ceidio a 7 ohonynt yng Nghlwb Chwaraeon Pwllheli, Efailnewydd. Nid oedd digon o aelodau yn bresennol ar gyfer cyfarfod Ebrill 2025, felly ni thrafodwyd unrhyw fater.

Diolch i bawb a fynychodd y cyfarfodydd ac am wneud eu gorau glas dros y gymuned. Mae pob un o'r cynghorwyr yn gwneud eu gwaith yn ddi-dâl ac yn ffyddlon iawn i'r Cyngor Cymuned. Ni chynhelir cyfarfod ym mis Awst.

Gwefan

Mae gwybodaeth am y Cyngor Cymuned gan gynnwys Rhaglenni Cyfarfodydd, Cofnodion a.y.y.b. i'w gweld ar y safle w

sef www.buan.org

Aelodaeth Allanol

Mae'r Cyngor yn aelod o Un Llais Cymru, sef y prif gorff ar gyfer Cynghorau Cymuned.

Cyllid a Gwariant

Penderfynwyd codi'r praesept i £4,500.00.

Bydd y Clerc yn anfon copi o gyfrifon y banc yn fisol i'r Cynghorwyr, ac fe fydd dau gynghorydd yn arwyddo'r sieciau ar ddiwedd pob cyfarfod.

Prif ffynhonell incwm y Cyngor yw'r praesept, ynghyd â chyfraniad gwerthfawr gan Lightsource (Fferm Solar) a Lord Newborough.

Cae Chwarae a Maes Parcio Newydd

Yn ystod 2024-2025 bu'r Cyngor Cymuned fod ynghlwm a Chynllun Cae Chwarae a Maes Parcio newydd ym mhentref Rhydyclafdy. Daeth criw o drigolion at eu gilydd i sefydlu Pwyllgor a derbyniwyd arian grant ar gyfer cychwyn y gwaith.

Bu i'r Cyngor Cymuned ganiatau iddynt gael gwneud y datblygiad ar y llecyn tir ger yr hen ysgol. Wrth godi arian yn lleol, ac ymgeisio am wahanol grantiau, cafwyd y cynlluniau eu gwireddu. Chwip o Gae chwarae newydd sbon ! Yn ystod y flwyddyn hon mae'r Cyngor Cymuned wedi talu rhent ar y tir hwn, talu am yswiriant y cae chwarae ac wedi talu am concritio'r maes parcio hefyd.

Carreg Gofeb

Bu i'r Eisteddfod Genedlaethol ddod i Foduan yn ystod 2023, ac er mwyn cofio amdani, penderfynnwyd creu gofeb a'i gosod hi'n ganolog ym Moduan. Cafwyd ganiatad gan yr Adran Cynllunio a'r Adran Briffyrdd i gael ei gosod yn y lleoliad oeddan wedi ei ddymuno ei gosod. Bu i un o'r Cynghorwyr ei rhoi fel rhodd i ni, bu i'n Cadeirydd gyflwyno tamaid o lechen fel rhodd ac yna gwnaeth y Bardd Iestyn Tyne gyfansoddi englyn i ni i'w rhoi ar y lechan. Cymerodd y Cynllun 15 mis o'r cychwyn, i'w gorffen.

Mae'r Gofeb wedi ei lleoli mewn lleoliad perffaith er mwyn i unrhyw un gael stopio yn y "lay-by" i'w gweld.

Gwobrwyon Un Llais Cymru

Yn ystod Ionawr 2025 bu i ni benderfynnu rhoi ceisiadau i mewn ar gyfer y ddau gynllun uchod i'r Gwyborwyon Un Llais Cymru. Bu i ni gyflwyno'r adroddiadau i mewn i niferoedd o gategoriau a oedd yn addas. 17/04/2025 cafom wybod ein bod

wedi bod yn llwyddiannus ac wedi cyrraedd y rhestr fer, ac felly yn cael mynychu'r Gwobrwyon Un Llais Cymru yn Adeilad Hafod a Hedd, ar Faes Sioe Llanelwedd. Buon yn llwyddiannus a chipio 3 gwobr:

1af - Prosiect Datganoli Gwasanaeth neu Ased Gorau 2025 (Cae Chwarae Newydd i Bentref Rhydyclafy)

3ydd – Menter Treftadaeth a Diwylliant – Canmoliaeth (y Garreg Gofeb)

3ydd – Menter Ymgysylltu Cymunedol – Canmoliaeth (Cae Chwarae Newydd i Bentref

Rhydyclafdy)

Rali Ffermwyr Ifanc Porthdinllaen

Twrn Clwb Ffermwyr Ifanc Porthdinllaen oedd i gynnal y rali eleni. Bu i ni dderbyn gohebiaeth gan y pwyllgor yn gofyn os fyddem yn foldon cyfrannu at yr achos, ac yn ystod cyfarfod mis Chwefror 2025 bu i pawb gytuno i ni roi cyfraniad ariannol iddynt.

Yn ystod y diwrnod bu i rai o Gynghorwyr Cyngor Cymuned Buan helpu, gan redeg cystadlaethau, stiwardio, coginio yn y Caffi ac eraill yn helpu yn gweini yn y Caffi I werthu té/coffi, cacennau, neu frechdanau. Roedd y Rali yn llwyddiant.

Dyddiad y cymeradwywyd gan y Cyngor 12 Mehefin, 2025.